Adroddiad i'r	Cyngor Sir
Dyddiad y cyfarfod	22 Chwefror 2022
Swyddog/Aelod Arweiniol	Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo
Awdur yr adroddiad	Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo
Teitl	Treth y Cyngor 22/23 a Materion Cysylltiedig

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Wrth fabwysiadu penderfyniadau cyfarfod cyllideb y Cyngor ar 25 Ionawr 2022, mae'n rhaid i'r Cyngor wneud penderfyniadau ychwanegol ar ffurf benodol i sicrhau bod Treth y Cyngor a'r materion cysylltiedig yn gyfreithiol ddilys.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae angen penderfyniad i osod lefelau Treth y Cyngor ar gyfer 2022/23.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Mae'n ofynnol i'r Cyngor Sir, fel yr Awdurdod Bilio, ystyried y praeseptau sydd wedi'u derbyn gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a'r Cynghorau Tref/Cymuned a chyhoeddi lefelau Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.

3.2. Argymhellir bod y symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23, yn unol ag Adrannau 32 i 34 (1) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y Ddeddf) a'r Rheoliadau Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol (Cymru) 2008 fel ag y maent yn adran 3 Atodiad A.

3.3. Argymhellir bod y symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23, yn unol ag Adrannau 34 (2) i 36 (1) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y Ddeddf) fel ag y maent yn adran 4 Atodiad A.

3.4. Bod y symiau Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau fel y'u cyflwynir yn Atodiad C.

3.5. Bod lefel y gostyngiad ar gyfer Dosbarth A, B a C fel y nodir yn Rheoliadau Treth y Cyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 2004 yn cael ei gosod ar sero ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 gyda'r cafeat bod hyn yn ddibynnol ar ddim newidiadau i ddeddfwriaeth nac amodau lleol.

4. Manylion yr adroddiad

Oherwydd bod angen cymeradwyo'r penderfyniad a'r argymhellion yn y modd a bennwyd, mae Atodiad A yn cynnwys manylion yr adroddiad.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Os nad yw'r argymhellion yn cael eu cymeradwyo, ni fydd yr Awdurdod yn gallu cyflwyno biliau Treth y Cyngor, felly ni fydd yr incwm sydd ei angen i ariannu Blaenoriaethau Corfforaethol ar gael.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae'r gost o gyflwyno a dosbarthu hysbysiadau Treth y Cyngor yn cael ei diwallu o fewn yr adnoddau presennol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Cwblhawyd asesiad lles ar gyfer y cynnydd yn Nhreth y Cyngor fel rhan o'r broses gyllidebol ac roedd yn ffurfio rhan o bapurau'r gyllideb a gyflwynwyd i'r Cyngor Llawn ar 25 Ionawr 2022.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Mae lefel Treth y Cyngor yn ffurfio rhan o'r gyllideb a bennwyd gan y Cyngor. Yn ogystal â'r adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, cafodd proses y gyllideb ei hystyried gan y Tîm Arwain Strategol, cyfarfodydd Briffio'r Cabinet, Arweinwyr Grŵp a chyfarfodydd Briffio'r Cyngor. Mae'r Fforwm Cyllideb Ysgol hefyd wedi'i gynnwys yn y cynigion drwy gydol y flwyddyn. Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur drwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol. Mae pandemig Covid-19 wedi parhau i effeithio ar y lefel ymgynghori

ac ymgysylltu gyda'r cyhoedd. Er hynny, mae cynlluniau ar waith i ymgysylltu'n gynnar gyda'r holl fudd-ddeiliaid yn ystod proses gyllidebol 2023/24.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor i osod Treth y Cyngor. Mae'r rheoliadau'n rhagnodol ynghylch sut y dylid gwneud hyn ac mae'r adroddiad hwn yn bodloni'r gofynion hynny.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Risg ariannol o fethu â chasglu incwm Treth y Cyngor. Mae cyfraddau casglu'n uchel ac yn cael eu monitro'n fanwl drwy gydol y flwyddyn.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol (Cymru) 2008.